# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 23 Mawrth 2006
### Amser: 9.00am
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Llywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham, AC Ceidwadwr
Janice Gregory, AC Llafur
Jane Hutt, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Andrew George, Gwasanaethau'r Siambr
Steven O’Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau
Adrian Green, Uwch Weithredwr Seneddol
Gareth Brydon, Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau :**

Y Dirprwy Lywydd

**Yn bresennol:**

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Giles York (ar gyfer eitem 2.1)

**Yr Arolygydd:**

Ian Peploe (ar gyfer eitem 2.1)

**Yn arsylwi :**

Daniel Collier, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Brian Davidge, Pennaeth y Gangen TGCh
John Grimes, Rheolwr y Rhaglen Newid Strwythurol
Marc Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Catherine Morris, Gweithredwr Seneddol
Kevin Willoughby, Pennaeth Diogelwch

| | |
|---|---|
| | **Cyflwyniadau** |
| | |
| | Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, y Llywydd oedd yn cadeirio'r cyfarfod. Croesawodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Giles York, a'r Arolygydd Ian Peploe o Heddlu De Cymru i'r cyfarfod. |
| | |
| 1 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chamau i'w cymryd** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau y bydd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2006 yn cael eu cyhoeddi erbyn 20 Ebrill 2006. |
| | |
| 1.2 | Camau i'w cymryd o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-04-06(p1) |
| | |

| | |
|---|---|
| | Cyfleusterau gofal plant<br><br>Trafododd y Pwyllgor gynnwys y papur a ddosbarthwyd, yn gofyn am ganiatâd i dalu costau cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddarparu cyfleusterau gofal plant. Roedd y papur hefyd yn nodi'r amserlen ar gyfer cynnal yr astudiaeth.<br><br>Cytunodd yr Aelodau i'r amcan gost, a'r amserlen ar gyfer yr astudiaeth.<br><br>Ystafell Smygu<br><br>Dywedodd Nerys Evans ei bod yn aros am ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu cysgodfa ysmygu. |
| 2 | **Eitemau i'w trafod** |
| 2.1 | Diogelwch ystâd y Cynulliad yn y Bae |
| | Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Giles York ei fod wedi bod ar daith o amgylch y Senedd gyda Chlerc y Pwyllgor. Roedd yn dymuno llongyfarch Pwyllgor y Ty ar lefel a natur sylweddol y gwasanaethau diogelwch oedd ar waith yn y Senedd. Rhoddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor ar ddiogelwch ystâd y Cynulliad.<br><br>Roedd yr Aelodau yn dymuno diolch i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol am ei gyflwyniad. Gofynnodd y Cadeirydd os oedd cwestiynau gan y Pwyllgor.<br><br>Wrth ymateb i gwestiynau am ddiogelwch, dywedodd Mr York y gallai'r heddlu gynnig cyngor o ran hyfforddi staff diogelwch ar sut i ymdrin â phobl heb ymddangos yn fygythiol. Roedd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cael "rheolau mewnol" eglur ar yr hyn a ganiateir o ran mynediad i'r adeilad, oedd yn caniatáu i unigolion arfer synnwyr cyffredin a disgresiwn. Cytunodd yr Aelodau y dylid cyfeirio'r mater at yr Is-Grwp Adeiladau i'w ystyried. Cadarnhaodd Dianne Bevan bod awdurdod gan Bwyllgor y Ty i bennu polisi diogelwch o fewn ystâd y Cynulliad. |
| 2.2 | Materion y Senedd - camau i'w cymryd HC(2)-04-06(p2) |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd y Llywydd at y system bleidleisio yn y Siambr, a'r problemau a grybwyllwyd gan rai Aelodau yn ystod Cyfarfod Llawn y diwrnod cynt. Dywedodd ei fod wedi comisiynu prawf llawn o'r system, ac nad oedd wedi canfod tystiolaeth o unrhyw broblemau technegol. Dywedodd y Swyddogion bod y system yn cael ei phrofi'n rheolaidd.<br><br>Mynegwyd pryder gan rai Aelodau nad oeddent bob amser yn gwybod a oedd eu pleidlais wedi ei chofrestru. Dywedodd Brian Davidge y byddai goleuadau pleidleisio a sgriniau cyfrifiaduron yr Aelodau yn cadarnhau a oedd eu pleidleisiau wedi eu cofrestru. Roedd y Pwyllgor yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol cael cyfarwyddiadau mwy manwl ar ddefnyddio'r system bleidleisio yn y Siambr. Cytunodd Andrew George i ddarparu'r canllawiau. Ychwanegodd bod manylion llawn pob pleidlais yn cael eu cyhoeddi yn y Pleidleisiau a Thrafodion ar y fewnrwyd 30 munud wedi diwedd y cyfarfod, ac nad oedd angen aros i Gofnod y Trafodion gael ei gyhoeddi.<br><br>Camau i'w cymryd: Andrew George<br><br>Dywedodd y Llywydd y byddai'n ceisio caniatáu mwy o amser i Aelodau bleidleisio mewn cyfres hir o bleidleisiau yn y dyfodol. Awgrymodd y dylai'r Cynulliad edrych ar ei drefniadau pleidleisio yn gyffredinol e.e. a oedd angen cynnal pleidlais wedi ei gofnodi ar bob gwelliant. Roedd Aelodau'n cytuno bod angen ystyried y materion hyn.<br><br>Camau i'w cymryd: Andrew George<br><br>Cafwyd adborth pellach gan yr Aelodau ar faterion yn ymwneud â defnyddio'r Senedd. Cafodd y materion a godwyd gan yr Aelodau yn y rhestr, a fydd yn cael ei anfon at yr Is-Grwp Adeiladau. |
| 2.3 | Materion yn ymwneud â gwahanu HC(2)-04-06(p3) |
| | |
| | Roedd y papur yn rhoi manylion diweddaraf y materion yn ymwneud â'r gwahanu arfaethedig o ran y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br><br>Nododd Pwyllgor y Ty yr Adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | |
| 2.4 | Cyfieithu Iaith Arwyddion Prydain yn y Senedd HC(2)-04-06(p4) |
| | |
| | Cyflwynwyd papur ar faterion yn ymwneud ag Iaith Arwyddion Prydain, yn gofyn am ganiatâd i brynu a gosod yr offer sydd ei angen i ddarparu cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain wrth ddarlledu.<br><br>Cafodd yr Aelodau wybod bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r darlledwyr, a bod y trafodaethau ar droed. Disgwylir y bydd y penderfyniad terfynol ar ddarlledu cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain yn cael ei wneud yng nghyfarfod y bwrdd golygyddol ar y cyd fis Ebrill.<br><br>Trafododd yr Aelodau pa mor ymarferol oedd darparu cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain yn rheolaidd. Nodwyd y byddai hyn yn digwydd mewn stiwdio ac nid yn y Siambr.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau'r cynnig i ddatblygu'r gallu i ddarparu cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer trafodion y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y Pwyllgorau, ac i'r gwariant cysylltiedig.<br><br>Diolchodd Jane Hutt i Gwen Parry a'i thîm am eu gwaith caled. |
| | |
| 2.5 | Systemau ariannol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-04-06(p5) |
| | |
| | Trafododd yr Aelodau bapur yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu systemau ariannol er mwyn paratoi ar gyfer creu Comisiwn y Cynulliad fis Mai 2007.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn yr argymhellion yn y papur, ac i gymeradwyo Opsiwn D, sef i gael cysylltiad sydd wedi ei ddiogelu â rhan o systemau ariannol presennol y Llywodraeth ond sydd ar wahân i weddill y systemau hynny, gan wneud trefniadau i gaffael system ariannol newydd erbyn mis Mawrth 2009.<br><br>Fel trefniant wrth gefn, pe byddai anawsterau'n codi o ran achrediad Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth, cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo Opsiwn B hefyd, sef i atgynhyrchu'r systemau ariannol presennol a'u trosglwyddo i'w darparu'n fewnol erbyn mis Mawrth 2007. |
| | |

| | |
|---|---|
| 3 | **Eitemau i'w Nodi** |
| 3.1 | Trosglwyddiadau yn y gyllideb HC(2)-04-06(p6) |
| | Darparwyd manylion i Bwyllgor y Ty ynghylch y trosglwyddiadau yng nghyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2005/06 |
| | Nododd y Pwyllgor y trosglwyddiadau. |
| | Dangosyddion a Thargedau HC(2)-04-06(p7) |
| | Nododd yr Aelodau’r adroddiad. |
| | Mynediad i Wybodaeth HC(2)-08-04(p6) |
| 3.2 | Nododd yr Aelodau’r adroddiad. |
| | Gweithgareddau'r Uned Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-04-06(p9) |
| 3.3 | Nododd yr Aelodau'r papur. |
| | Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad |
| | Nododd yr Aelodau bod WAQ 46108 a gyflwynwyd i'w ateb ar 2 Mawrth 2006 wedi cael ei ddosbarthu eisoes. |
| 3.4 | |
| | Unrhyw Fater Arall |
| | Nid oedd unrhyw faterion yn codi. |
| 4 | |
| 4.1 | Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Ebrill 2006 |
| | Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |